

# LLAIS RHANBARTH POWYS ADRODDIAD AR YR HYN RYDYM WEDI' GLYWED YM MHOWYS



**Ymgysylltiad â Ffocws ar y  
Gymuned yn Ardal Llanidloes  
Chwefror 2024**

# FFORMATAU HYGYRCH

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.

# CYNNWYS

Amdano Llais .....	4
Crynodeb Gweithredol.....	5
Yr hyn a wnaethom .....	8
Yr Hyn a Glywsom o Sgyrsiau gyda Phobl .....	11
Yr hyn a glywsom o'r arolygon.....	26
Diolch.....	50
Adborth.....	50
Manylion Cyswllt .....	50

## AMDANO LLAIS



Rydym ni'n credu mewn Cymru iachach lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnyn nhw mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw


Rydym yma i ddeall eich barn a'ch profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio'ch adborth i lunio'ch gwasanaethau.

Rydym yn chwilio am straeon da a drwg fel ein bod yn deall beth sy'n gweithio'n dda a sut y gallai fod angen i wasanaethau wella. Ac rydym yn ceisio siarad yn arbennig â'r rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Rydym hefyd yn siarad â phobl am eu barn a'u profiadau trwy gynnal digwyddiadau yn eich cymunedau lleol neu ymweld â chi ble bynnag yr ydych yn derbyn eich gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a grwpiau â diddordeb ac yn unol â mentrau cenedlaethol i gasglu barn pobl.

A phan aiff pethau o chwith rydym yn eich cefnogi i wneud cwynion.

Mae 7 Rhanbarth Llais yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais "claf a



# CRYNODEB GWEITHREDOL

Yn ystod mis Chwefror 2024, bu Llais Powys yn ymgysylltu â chymuned Llanidloes a'r cyffiniau, i ddeall profiadau pobl o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu megis arolygon, ymuno â grwpiau a sefydliadau amrywiol ar gyfer trafodaeth wyneb yn wyneb, ymweld â safleoedd lle darperir gwasanaethau iechyd a gofal a siarad â phobl mewn digwyddiadau cymunedol. Buom yn siarad â phobl o wahanol oedrannau a chyda gwahanol anghenion iechyd a gofal.

## Canfyddiadau Allweddol

1. **Gwerthfawrogiad o Wasanaethau Lleol** – Fe wnaeth llawer o bobl ganmol y gwasanaethau iechyd lleol, yn enwedig gofal ac ymroddiad staff Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes, Fferyllfa Llanidloes a Phractis Meddygol Arwystli.
2. **Mynediad i Wasanaethau** – Roedd pryderon sylweddol ynghylch cyrchu gwasanaethau, yn enwedig anhawster i gael gofal deintyddol y GIG, pryderon am hyd yr aros am ofal wedi'i gynllunio a heriau'n ymwneud â'r lleoliad gwledig – pellter teithio ar gyfer gofal arferol a brys ac anawsterau i oedolion hŷn a phobl nad oes ganddynt eu cludiant eu hunain.
3. **Pryderon am Gyflenwi Gwasanaethau** – Nodwyd problemau o ran cael apwyntiadau gyda gwasanaethau meddygon teulu, ac roedd awydd am fwy o gyfleoedd ar gyfer apwyntiadau wyneb yn wyneb, pryderon am ddiagnosis dros y ffôn a'r teimlad nad yw brysbennu dros y ffôn yn gweithio i bawb. Clywsom hefyd am yr angen am well cyfathrebu rhwng gwahanol ddarparwyr gwasanaethau a rhwng y gwasanaethau a'r cleifion.
4. **Anghenion Gofal Cymdeithasol** - Roedd adborth yn amlygu'r angen am wasanaethau gofal cymdeithasol sy'n hygyrch ac wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion y gymuned. Roedd pryderon ynghylch argaeledd pecynnau gofal a chymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed,

gan gynnwys pobl hŷn a phobl ag anableddau.

5. **Ymagwedd Gyfannol at Ofal Iechyd** - Mynegodd y gymuned awydd am system gofal iechyd sy'n darparu gofal clinigol o ansawdd uchel ond sydd hefyd yn canolbwyntio ar ofal iechyd cyfannol, hygyrch sy'n cefnogi llesiant ehangach unigolion.

## Camau a Gymerwyd

Rydym yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys i sicrhau eu bod yn deall beth yw barn pobl am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn gallu gwneud gwelliannau i wasanaethau lle mae eu hangen.

Ar ôl i ni ddraftio'r adroddiad yn amlinellu'r hyn a glywsom, cynhaliom weithdy ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, y Cyngor Sir a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys. Nod y sesiwn oedd amlygu rhai o'r prif themâu, trafod meysydd gwaith sydd eisoes ar y gweill, a nodi ar y cyd rai o'r camau gweithredu fydd yn cael eu cymryd. Gwnaethpwyd nifer o ymrwymiadau yn ystod y gweithdy.

1. Llais i wneud cynrychiolaeth i Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd i'w hatgoffa am drefnu amseroedd apwyntiad addas ar gyfer cleifion sydd â phellter i'w deithio.
2. Bydd gwybodaeth o'r adroddiad yn cael sylw Ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr a Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru, fel rhan o gyfarfodydd adolygu comisiynu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.
3. Bydd y Bwrdd Iechyd yn codi ymwybyddiaeth o'r Nyrs Gyswllt Anabledd Dysgu ym Mhowys gydag Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford trwy'r cyfarfodydd contractwyr/comisiynydd.
4. Mae pontio a throsglwyddo o wasanaethau gofal iechyd plant i oedolion yn faes rhaglen allweddol o waith i'r Bwrdd Iechyd a bydd yr adborth yn adroddiad Llais yn werthfawr wrth i'r gwaith hwn barhau.
5. Bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio adborth am apwyntiadau gofal wedi'i gynllunio i lywio eu gwaith wrth roi gwasanaethau Aros yn lach ar waith.
6. Mae gwasanaethau arbenigol nad yw'n bosibl eu darparu ym Mhowys oherwydd diogelwch cleifion a rheolaeth glinigol. Fodd

bynnag, mae gan y Bwrdd Iechyd egwyddor sylfaenol wrth wraidd ei strategaeth i ddarparu gofal yn nes at y cartref pan fo'n ddarbodus, yn ddiogel ac yn hyfyw i wneud hynny.

7. Derbynnir bod prinder gweithwyr gofal yn ardal Llanidloes. Mae hwn yn fater y mae Cyngor Sir Powys yn ceisio mynd i'r afael ag ef a bydd yn sgwrs barhaus hyd y gellir rhagweld.
8. Bydd y Cyngor Sir yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ynghylch sut a phryd i ofyn am gyngor neu wasanaethau cymorth.
9. Ymrwymodd y Cyngor i ddarparu gwell gwybodaeth ac esboniad i unigolion a'u teuluoedd am y prosesau ar gyfer rhoi trefniadau byw â chymorth ar waith.
10. Mewnwelediadau ymgysylltu i'w rhannu â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys i gefnogi'r gwaith parhaus o gynllunio a chyflawni blaenoriaethau ar gyfer cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Casgliad

Mae'r adborth a gawsom yn dangos bod pobl yn ddiolchgar am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn a'u bod yn hapus gyda'r gofal a ddarperir. Daeth pwysigrwydd cymuned i'r amlwg yn gryf ac mae'n gymuned wydn iawn. Amlygodd y pryderon, pan fydd angen gwasanaethau aciwt neu wasanaethau gofal cymdeithasol ar bobl, fod yna bryder na fyddant yn gallu cael y gofal sydd ei angen arnynt. Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn gweithio tuag at ei uchelgais i ddarparu gofal yn nes at y cartref pan fo'n ddiogel yn glinigol ac yn gynaliadwy i ddarparu gwasanaethau mewn lleoliad cymunedol gwledig.

## YR HYN A WNAETHOM

Ym Mhowys, ar gyfer ein hymgysylltu lleol, rydym yn adlewyrchu'r dull 13 ardal a ddefnyddir gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys. Mae'r ardaloedd wedi'u canoli o amgylch trefi mwyaf Powys a'r ardaloedd cyfagos. Rydym yn gweithio mewn un ardal ar y tro, fel arfer am tua mis. Nod yr ymgysylltu yw casglu profiadau bywyd pobl o gyrchu a derbyn gwasanaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol. Rydym am gael gwybod am wasanaethau a ddarperir yng Nghymru neu dros y ffin yn Lloegr.

Llanidloes oedd y bedwaredd ardal yr ydym wedi cynnal ymgysylltu â ffocws ynddi. Roeddem am ddod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu â phobl o bob oed ac sydd â diddordebau gwahanol. Roeddem am wrando ar eu barn am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



Fe wnaethom gynnal ymchwil i ddarganfod pa weithgareddau fyddai'n digwydd yn yr ardal. Cysylltwyd â'r Cysylltydd Cymunedol ar gyfer yr ardal i wirio pa grwpiau neu weithgareddau yr oedden nhw'n ymwybodol ohonyn nhw. Fe wnaethom hefyd ymchwilio i ba sefydliadau sy'n gweithredu yn yr ardal fel y gallwn ofyn iddynt nhwhelpu i godi ymwybyddiaeth o Llais. Rhoesom daflenni a chopïau papur o arolygon i sefydliadau er mwyn iddyn nhw eu rhannu â phobl a ddefnyddiodd eu gwasanaethau. Fe wnaethom hysbysu'r Cyngor Tref

**Roedd gennym ddau arolwg ar gael i bobl eu cwblhau – un oedd arolwg cyffredinol i bobl roi sylwadau am unrhyw agwedd ar iechyd neu ofal cymdeithasol a'r llall oedd arolwg am gael mynediad at wasanaethau meddygon teulu. Roedd yr arolygon hyn ar gael ar-lein ac ar bapur.**



a'r Cyngorau Cymuned lleol a'r Cyngorwyr Sir lleol y byddem yn gweithio yn yr ardal.

Gallom drefnu ymweliadau o dan God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Fynediad i Adeiladau ac Ymgysylltu ag Unigolion. Roedd hyn yn ein galluogi i siarad â phobl am y gwasanaethau yr oedden nhw'n eu derbyn yn y lleoliad roeddem yn ymweld ag ef a hefyd am wasanaethau eraill yr oedden nhw'n eu derbyn. Roedd yr ymweliadau hyn yn cynnwys Practis Meddygol Arwystli, Fferyllfa Llanidloes ac Ysbyty Cymunedol Llanidloes. Fe wnaethom hefyd gyfarfod â Rheolwr Cartref Gofal Maes y Wennol, i egluro rôl Llais a dechrau meithrin perthnasoedd. Cadarnhaodd y Rheolwr y byddai'n hapus i gynorthwyo Llais i ymgysylltu â phreswylwyr a'u perthnasau yn y dyfodol.

Ar gyfer yr ymgysylltu hwn, roeddem am roi cynnig ar rai ffyrdd gwahanol o hyrwyddo'r hyn yr oeddem yn ei wneud. Cyhoeddwyd erthygl a hysbysebion am Llais yn y Cambrian News a threfnwyd i'r Post Brenhinol ddosbarthu taflen i tua 6400 o gartrefi yn yr ardal. Fe wnaethon ni recordio fideo byr, yn esbonio beth oedden ni'n ei wneud, a chafodd hwn ei rannu ar ein tudalen Facebook. Drwy gydol y mis, buom yn rhannu negeseuon ar Facebook am bob un o'r sesiynau ymgysylltu yr oeddem yn eu cynnal.

Fe wnaethom ymgysylltu wyneb yn wyneb yn y lleoliadau canlynol neu gyda'r grwpiau canlynol:

Grŵp Friday Friends (grŵp celf i bobl ag anawsterau dysgu) yn y Gerddi Crog
Clinigau Cleifion Allanol Gynaecoleg ac Offthalmoleg yn Ysbyty Cymunedol Llanidloes
Practis Meddygol Arwystli – Canolfan Iechyd Llanidloes
Swyddfa Bost a Siop Goffi 'pop up', Llandinam
Fferyllfa Llanidloes
Ward Graham Davies, Ysbyty Cymunedol Llanidloes
Friends Together Llanidloes yn Neuadd Eglwys Sant Idloes
Clwb Cinio Trefeglwys

Bore Coffi Llangurig
Grŵp Cymorth Versus Arthritis yn y Gerddi Crog
Leg Club Llanidloes yn Sefydliad Y Fan
Ysgol Uwchradd Llanidloes

## YR HYN A GLYWSOM O SGYRSIAU GYDA PHOBL



Clywsom lawer o sylwadau cadarnhaol am ystod o wasanaethau yr oedd pobl yn eu defnyddio. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Practis Meddygol Arwystli
- Tîm Nyrsio Ardal Lleol
- Fferyllfa Llanidloes
- Leg Club Llanidloes
- Gwasanaethau a ddarperir yn Ysbyty Cymunedol Llanidloes
- Gwasanaeth Ffisiotherapi
- Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol
- Staff Ambiwylans / Parafeddygon
- Cymorth Cartref Bodlondeb
- Canolfan Ddydd Mencap yn Llanfyllin
- Canolfan Ddydd Sylfaen yn Llanidloes
- Deial i Deithio Llanidloes
- Cartref Nyrsio Bethshan yn y Drenewydd
- Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth
- Ysbyty Robert Jones ac Agnes Hunt yng Ngobowen
- Ysbytai Amwythig a Telford
- Gofal a Thrwsio

- Gofal canser – Ysbyty'r Frenhines Elizabeth Birmingham, Ysbyty Henffordd, Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol Telford, Ysbyty Brenhinol Amwythig
- Age Concern Powys
- Gwasanaeth Arthritis Gwynegol yn Ysbyty Robert Jones ac Agnes Hunt

Fodd bynnag, dywedodd pobl wrthym fod cael mynediad at wasanaethau yn aml yn heriol. Mewn llawer o achosion roedd hyn yn ymwneud ag anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau meddygon teulu, mewn rhai achosion roedd yn ymwneud â methu â chael gwasanaethau deintyddol y GIG ac, mewn rhai achosion, roedd yn ymwneud ag anawsterau gyda mynediad at ofal yn yr ysbyty ac amseroedd aros am ofal wedi'i gynllunio. Clywsom bryderon hefyd am deithio a chludo i wasanaethau, yn enwedig i bobl nad oes ganddynt eu cerbyd eu hunain.

Treuliasom beth amser yn y feddygfa yn Llanidloes, yn siarad â phobl ac yn rhoi cyfle iddyn nhw rannu eu profiadau o unrhyw wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. Roedd y man aros yn brysur iawn yn ystod yr ymweliad ac, oherwydd y gwaith adnewyddu, roedd y lle yn gyfyngedig. Roedd y rhan fwyaf o bobl yn amharod i rannu eu barn tra roeddem yno.

Mynegodd y rhan fwyaf o'r bobl y siaradwyd â hwy yn ystod y mis ymgysylltu brofiadau cadarnhaol o ddefnyddio gwasanaethau Meddygon Teulu o Bractis Meddygol Arwystli, gyda phobl yn dweud eu bod yn teimlo y gallen nhw gael apwyntiadau pan fo angen. Soniodd rhai pobl am gyfeillgarwch staff y derbynfeydd. Roedd canmoliaeth i'r gwasanaeth mân anafiadau a ddarperir yn y practis meddygol. Roedd pobl yn hapus i weld gwaith adnewyddu yn digwydd ym meddygfeydd Llanidloes a Chaersws.

Fodd bynnag, cawsom sylwadau gan rai pobl nad oedden nhw mor fodlon:

- Dywedodd rhai pobl ei bod yn anodd cael apwyntiadau wyneb yn wyneb gyda meddyg.
- Dywedodd rhai pobl nad oedd apwyntiadau dilynol a oedd ganddyn nhw cyn COVID wedi bod yn digwydd ers y pandemig. Enghraifft oedd claf â chyflwr ar y galon.

- Roedd pryderon ynghylch diagnosis a wnaed dros y ffôn ac ofn camddiagnosis neu fethu symptomau pwysig.
- Dywedodd rhai pobl eu bod yn meddwl bod y neges ffôn gychwynnol wrth ffonio'r practis yn rhy hir a'i bod yn ddryslyd clywed y neges yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Bu oedi wrth drosglwyddo cofnodion meddygol rhwng meddygfeydd pan symudodd claf i'r ardal – adroddwyd fel pedwar mis.
- Clywsom bryderon efallai na fydd rhai pobl hŷn yn cysylltu â'r Meddyg Teulu oherwydd eu bod yn poeni am fod yn faich ac nad ydyn nhw'n dymuno ychwanegu at bwysau Meddygon Teulu.
- Cafwyd sylwadau am ddiffyg empathi gan rai Meddygon Teulu locwm.
- Cawsom sylwadau am y diffyg staff sy'n siarad Cymraeg yn y practis. Ystyriwyd bod hyn yn broblem i bobl oedd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddyn nhw ac a oedd wedi byw mewn ardaloedd anghysbell ond wedi gorfod symud i Lanidloes neu i'r cartref gofal.
- Mae'r Practis yn cynghori cleifion i ganiatáu pum diwrnod gwaith i brosesu ceisiadau presgripsiynau rheolaidd a dywedodd rhai pobl wrthym eu bod yn teimlo bod hyn yn rhy hir.
- Mynegwyd pryderon ynghylch y practis Meddyg Teulu yn rhy brysur oherwydd bod pobl yn symud i'r ardal ac oherwydd nifer y safleoedd gwyliau sy'n cael eu datblygu.

## Fferylliaeth Gymunedol

Ym mhob sesiwn ymgysylltu a fynychwyd gennym, clywsom sylwadau cadarnhaol iawn am Fferyllfa Llanidloes a'r fferylllydd, Dylan Jones.

Treuliasom amser yn y Fferyllfa ar 12 Chwefror, pan ddysgom fwy am yr hyn y mae'n ei olygu i'r fferylllydd fod yn bresgripsiynydd annibynnol. Mae'r fferylllydd yn gallu darparu gwasanaethau a chymorth ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau iechyd a salwch aciwt gan gynnwys heintiau ar y croen, heintiau'r glust, y trwyn a'r gwddf, heintiau'r frest, heintiau'r llwybr wrinol, brechau a dolur gwddf. Mae hyn yn helpu i leddfu'r pwysau ar y feddygfa leol.

“Dw i'n defnyddio'r fferyllfa yn aml ac yn tueddu i fynd yno yn gyntaf cyn mynd at Feddyg Teulu. Mae Dylan y fferylllydd yn boblogaidd iawn.”

“Mae'r lle'n ffantastig. Staff cyfeillgar a gwybodus iawn. Gwell gen i ddod yma i ofyn am gyngor yn hytrach na'r Meddyg Teulu. Wedi defnyddio ystafell driniaeth ar gyfer cyflwr clust. Dw i'n teimlo'n ffodus iawn i gael y fferylllydd modern yma ychydig lawr y ffordd.”

“Mae'r fferyllfa'n ardderchog ac yn ddefnyddiol iawn.”

Roedd sylwadau negyddol am wasanaethau fferyllol yn ymwneud â'r ffaith nad oedd meddyginiaethau rhagnodedig ar gael pan fydd cleifion yn cymryd presgripsiynau i mewn. Nid oedd hyn yn ymwneud â'r fferyllfa yn Llanidloes yn unig.

### **Gwasanaethau Deintyddol y GIG**

Fel mewn ardaloedd eraill yr ydym wedi gweithio ynddynt, clywsom am anawsterau o ran cael mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG.

Clywsom gan bobl nad oedden nhw wedi cael eu galw am archwiliad ac yna darganfod eu bod wedi cael eu tynnu oddi ar restr y GIG.

Dywedodd rhai pobl wrthym fod yn rhaid iddyn nhw ddechrau defnyddio deintydd preifat.

### **Gwasanaethau i Bobl ag Anableddau Dysgu**

Gallom ymgysylltu â rhai pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr.

Mynegodd gofalwr y teimlad bod yna annhegwch yn y ddarpariaeth o wasanaethau deintyddol i bobl ag anableddau dysgu. Roedden nhw'n teimlo fod plant yn cael mynediad i'r gwasanaeth ond nad oedd pobl ag anableddau dysgu yn cael yr un fraint.

Eglurodd gofalwr fod eu merch wedi treulio amser yn Ysbyty Brenhinol Amwythig y llynedd, gan dreulio nifer o oriau ar wely yn y coridor i ddechrau. Gwrthodwyd mynediad iddyn nhw at Nyrs Anabledd Dysgu yn yr ysbyty oherwydd eu bod yn glaf o Gymru. Roedd hyn wedi achosi gofid i'r claf. Roedd y gofalwr wedi darganfod sawl mis yn ddiweddarach bod yna rif ffôn i'w ffonio i ofyn am Nyrs Gyswllt Anabledd Dysgu o Bowys. Roedden nhw'n teimlo dylai'r ysbyty fod wedi gwybod hyn ac y dylen nhw fod wedi rhoi'r rhif cyswllt.

Dywedwyd wrthym nad yw pobl sy'n byw mewn llety â chymorth yn cael dewis gyda phwy y maen nhw'n byw. Gall hyn fod yn heriol os oes rhaid i berson iau fyw gyda phobl hŷn gan y gall gyfyngu ar eu cyfleoedd i gymdeithasu. Buom yn siarad â rhywun y byddai'n well ganddyn nhw fyw ar eu pen eu hunain.

Clywsom am y Meddyg Teulu yn caniatáu amser ychwanegol yn ystod apwyntiad i berson ag anawsterau dysgu i egluro ei symptomau yn ei

ffordd ei hun. Dywedodd y gofalwr fod y Meddygon Teulu yn “mynd yr ail filltir”.

Dywedodd gofalwr person ag Awtistiaeth, ers gadael addysg, fod yr holl wasanaethau a chymorth arbenigol a oedd yn arfer cael eu darparu wedi dod i ben. Roedd hyn wedi bod yn addasiad caled iawn oherwydd anghenion cymhleth. Teimlai'r gofalwr eu bod wedi cael eu gadael i ymdopi ar eu pen eu hunain ac nid oedd yn teimlo bod posibilrwydd o gymorth gydag opsiynau byw'n annibynnol.

Ar bwnc gweithwyr gofal, clywsom ei bod yn anodd ffurfio perthnasoedd oherwydd bod cynifer o ofalwyr yn mynychu.

Dywedwyd wrthym fod Canolfan Ddydd Mencap yn Llanfyllin yn anhygoel a'r staff yn wych. Roedd yn teimlo fel teulu i'r rhai sy'n mynychu ac mae'n achubiaeth ac, i rai, yr unig leoliad cymdeithasol cyfarwydd sydd ar gael.

Roedd canmoliaeth hefyd i Ganolfan Ddydd Sylfaen yn Llanidloes, a oedd yn cael ei gweld fel ased gwych ac yn gwneud gwahaniaeth i'r bobl sy'n ei defnyddio a'u gofalwyr. Teimlai pobl ei bod yn bwysig ei chadw ar agor.

## Ysbyty Llanidloes

Canmolodd nifer o bobl mewn gwahanol ddigwyddiadau y gofal a'r gwasanaethau a ddarperir yn Ysbyty Llanidloes. Cafwyd sylwadau penodol am y clinig gynaeoleg cleifion allanol fel gwasanaeth rhagorol a oedd yn arbed taith i Ysbyty Bronglais. Roedd pobl hefyd yn hapus iawn bod y clinig llygaid yn cael ei ddarparu yn yr ysbyty, gan arbed teithio eto.

Clywsom sylwadau cadarnhaol am wasanaethau awdioleg yn yr ysbyty. Gofynnodd rhai pobl pryd y byddai gwasanaeth cymorth clyw RNID yn dychwelyd i'r ysbyty – *rydym yn ceisio gwybodaeth am hyn gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar sy'n darparu'r gwasanaeth ar draws Powys.*

Mynegodd pobl y gobaith y gallai mwy o wasanaethau gael eu darparu yn yr ysbyty.

Roedd rhai pobl yn meddwl y dylid darparu mwy o ofal lliniarol yn Llanidloes.



Gallom ymgysylltu â phobl yn yr ysbyty, y rhai oedd yn mynychu apwyntiadau cleifion allanol a chleifion ar y ward.

- Mae dau glaf ar y ward yn byw y tu allan i'r ardal (mwy nag awr i ffwrdd mewn car) ac roedden nhw'n gobeithio y gallen nhw gael eu trosglwyddo i ysbyty yn nes at eu cartref. Roedd un o'r cleifion hyn yn aros i becyn gofal gael ei roi yn ei le er mwyn iddyn nhw allu mynd adref.
- Soniodd yr holl gleifion am garedigrwydd a sylw'r staff.
- Roedd cleifion yn teimlo bod amrywiaeth dda o fwyd.
- Teimlai perthynas claf nad oedd digon o ofal na gwasanaethau ar gael i gleifion â dementia. Dywedon nhw fod 10 gwely ar gael yn Llandrindod ac, os oedden nhw'n llawn, yna roedd yn golygu fod rhaid i bobl deithio'n bell. Egluron nhw bod eu perthynas wedi bod mewn pedwar ysbyty gwahanol ers mis Awst, cyn trosglwyddo i Lanidloes. Soniodd y perthynas hefyd am gyfathrebu gwael gan staff yr ysbyty â nhw.
- Dywedodd un claf y bydden nhw'n elwa o allu defnyddio cyfrifiadur. Pan godwyd hyn gydag aelod o staff, eglurodd fod offer ar gael ond nad oes capasiti i staff eistedd gyda chleifion tra'u bod yn defnyddio'r offer. Roedd system lle gallai gwirfoddolwyr helpu cleifion wedi bod ar waith ers tro, ond nid oedd yn datblygu.

### **A oes unrhyw gynlluniau i wirfoddolwyr helpu cleifion mewn amgylchiadau o'r fath yn y dyfodol?**

Gwnaethom siarad ag aelod o staff a esboniodd rai o'r heriau y mae staff yn eu hwynebu.

Dywedwyd wrthym fod 9 allan o 14 o gleifion sydd ar y ward ar hyn o bryd yn barod i'w rhyddhau ond nad oedden nhw'n gallu gadael oherwydd bod angen pecynnau gofal. Mae Swyddog Cyswllt Rhyddhau yn ei le am un diwrnod yr wythnos, i helpu gyda hyn.

### **Leg Club Llanidloes**

Yn ystod y mis clywsom sylwadau cadarnhaol am Leg Club Llanidloes. Gallom fynychu sesiwn o'r Leg Club ac roedd pawb a oedd yn bresennol yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a gawsant. Roedd yn cael ei

ddefnyddio nid yn unig gan bobl oedd angen cymorth meddygol ond roedd hefyd yn weithgaredd cymdeithasol i rai pobl ac roedd yn amlwg bod pobl yn mwynhau mynychu. Roedd y sesiwn yn cynnwys cyfres o ymarferion cadair yr oedd y rhan fwyaf o bobl yn ymuno â nhw. Gwelsom y gofal a'r tosturi a ddangoswyd i'r bobl a oedd yn bresennol.


Gwnaethom siarad â rhywun a oedd wedi bod yn yr ysbyty ar ôl cwmpo a thriniaeth ddilynol ar gyfer cyflwr y galon. Bu oedi cyn iddyn nhw gael eu rhyddhau o'r ysbyty oherwydd eu bod yn byw ar eu pen eu hunain ac ystyriwyd y byddai angen pecyn gofal arnyn nhw yn ystod eu hadferiad. Trefnwyd pecyn gofal a rhyddhawyd y person. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw weithwyr gofal erioed wedi dod. Roedd y person yn ceisio cael cefnogaeth i helpu gyda thasgau cartref a bywyd bob dydd ond, oherwydd eu bod yn byw ymhell o Lanidloes, roedden nhw'n cael trafferth dod o hyd i unrhyw un i helpu. Roedd y Nyrs Ardal yn ymwybodol o rywun a allai helpu a darparwyd manylion. Darparwyd rhif ffôn Age Cymru Powys hefyd fel y gallen nhw ofyn am wiriad budd-daliadau.

## **Gwasanaethau Ambiwllans**

Mynegodd nifer o bobl bryderon am yr amseroedd aros am ambiwlansys. Roedd cael cais i gludo rhywun i'r ysbyty eu hunain yn achosi straen mawr i bobl.

Cawsom sylwadau am y pellter i'r adran damweiniau ac achosion brys a'r anesmwythder a brofwyd yng nghefn ambiwlans oherwydd cyflwr y ffyrdd.

Roedd canmoliaeth i'r gofal a roddir gan y staff ambiwlans.



“Alla i ddim gweld bai ar y staff ambiwlans o gwbl, parafeddygon rhagorol, mor ofalgar a thrylwyr iawn yn yr hyn maen nhw'n ei wneud. Yr amser y mae'n rhaid i chi aros amdanyn nhw ydy'r broblem.”

## **Gwasanaethau Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys**

Eglurodd claf a oedd yn derbyn gofal canser i ni, tra roedd yn derbyn triniaeth yn Birmingham, fod y gyrywyr ceir a oedd yn darparu ei gludiant yn lleol i ardal Llanidloes. Ers cael ei drosglwyddo i Ysbyty Henffordd ar gyfer ei driniaeth, mae'r gyrywyr ceir wedi bod yn teithio o Cheltenham neu Birmingham i'w godi a'i gludo i'r ysbyty. Mae hyn yn ymddangos i'r claf fel gwario punt i ennill ceiniog.

Eglurodd claf arall oedd yn derbyn gofal cancr fod yn rhaid iddyn nhw fynd i Ysbyty Telford am lawdriniaeth a gofynnwyd iddyn nhw fod yno erbyn 7.30am. Pan ffoniodd y claf y Ganolfan Gyswllt i ofyn am gludiant, dywedwyd wrthyn nhw yn blwmp ac yn blaen na fyddai'n bosibl eu cludo i'r ysbyty erbyn 7.30am. Yna trefnodd y claf gludiant trwy ffrind ond methodd hyn oherwydd bod y ffrind wedi mynd yn sâl. Ffoniodd y claf y Ganolfan Gyswllt eto a dywedodd y person y siaradodd â nhw efallai na fydden nhw'n gallu eu cludo i'r ysbyty erbyn 7.30am ond y bydden nhw'n cael y claf yno mor agos at yr amser hwnnw â phosibl. Roedd agwedd hollol wahanol ar bob galwad.

## **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol**

- Clywsom am bobl a oedd yn cael trafferth i sicrhau pecynnau gofal a dywedodd pobl fod hyn yn rhywbeth yr oedd angen ei wella. Roedden nhw'n ymwybodol o faterion staffio a diffyg gweithwyr gofal yn yr ardal wledig hon.
- Siaradodd gofalwr di-dâl am y ffaith nad oedd gan eu mam oedrannus, sydd ag anabledd corfforol, weithiwr cymdeithasol ac roedden nhw'n teimlo nad oedden nhw'n cael eu cefnogi. Roedden nhw'n aros am asesiad gofal cymdeithasol, y rhagwelwyd y byddai'n gyfnod aros o bedair wythnos, ond roedden nhw'n ofni efallai na fyddai hyn yn arwain at becyn gofal oherwydd y diffyg gweithwyr gofal yn lleol.

- Mae unigrwydd yn broblem i rai pobl, yn enwedig i bobl nad oes ganddyn nhw fynediad hawdd at drafnidiaeth gyhoeddus neu nad ydyn nhw'n dymuno defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

## Trafodaeth gyda Rheolwr Cartref Gofal

Cawsom gyfarfod â Rheolwr Cartref Gofal Maes-y-Wennol. Roedd y cyfarfod er mwyn cyflwyno Llais a'r gwaith rydym yn ei wneud ac i drafod cyfleoedd i ni ymgysylltu â phreswylwyr a'u teuluoedd. Roedd y Rheolwr yn groesawgar iawn a byddai'n hapus i'n cynorthwyo i ymgysylltu â phreswylwyr a'u perthnasau.

Mae Maes-y-Wennol yn rhan o Grŵp Gofal Iechyd Shaw. Mae'n cynnig gofal preswyl, dementia ysgafn i gymedrol a gofal seibiant i bobl 65+ oed. Mae 29 o welyau yno, ac mae 16 ohonyn nhw wedi'u contractio i Gyngor Sir Powys ac mae 13 yn hunan-ariannu (preifat).

Mae'r cartref yn cyflogi tua 40 o staff ac nid oes ganddo unrhyw broblemau penodol o ran recriwtio na chadw staff.

Gwnaethom siarad â'r Rheolwr am brofiad y cartref o dderbyn gwasanaethau gan y GIG a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Eglurodd y Rheolwr fod y cartref yn cael cymorth rhagorol gan y Meddygon Teulu a'r Tîm Nyrsio Ardal ac mae hyn yn cynnwys cymorth diwedd oes. Mae ganddyn nhw hefyd gysylltiadau da gyda'r timau Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol ac mae atgyfeiriadau fel arfer yn cymryd tua 1-2 wythnos.
- O safbwynt iechyd, roedd y Rheolwr o'r farn bod y gwendidau yn ymwneud â thrin traed (dim gwasanaeth trin traed y GIG felly mae trigolion yn talu i ddefnyddio gwasanaethau ciropodydd preifat) a gwasanaethau iechyd meddwl.
- Achosodd materion staffio mewn perthynas â gofal cymdeithasol heriau i'r cartref oherwydd nad oes gan y preswylwyr weithiwr cymdeithasol penodol mwyach. Nid yw adolygiadau cynllun gofal blynyddol bob amser yn cael eu cwblhau mewn modd amserol. Eglurodd y Rheolwr fod y Cyngor Sir wedi penodi Swyddog Adolygu

yn ddiweddar a deallir y bydden nhw'n cynnal adolygiadau blynyddol. Mae'r cynlluniau gofal yn y cartref yn cael eu hadolygu gan staff y cartref gofal bob tri mis a gwahoddir teulu'r preswlydd i fod yn rhan o'r broses.

- Roedd rhai materion gweithredol yn ymwneud â dyraniadau'r gwelyau dan gontract.

## Trafodaeth yn yr Ysgol

Yn anffodus, nid oedd yr Ysgol Uwchradd yn gallu trefnu grŵp o fyfyrwyr i gwrdd â ni ond fe wnaethom gyfarfod â'r Dirprwy Bennaeth a'r Pennaeth Llesiant. Y prif themâu o'r drafodaeth oedd:

- Cysylltiadau da gyda'r gwasanaeth nyrsio ysgolion - mae'r nyrs yn ymweld â'r ysgol unwaith yr wythnos ac mae ganddi ystafell wedi'i neilltuo ar gyfer cwrdd â myfyrwyr. Bydd staff yn cyfeirio pobl ifanc at y nyrs. Mae gan yr ysgol gardiau ChatHealth ar gael i bobl ifanc.
- Mae Area 43 yn darparu gwasanaeth cwnsela annibynnol yn yr ysgol ac yn y gymuned i blant a phobl ifanc ym Mhowys. Mae cwnselwyr yn cynnig sesiynau yn yr ysgol i unigolion (6-8 wythnos neu fwy os oes angen) - gall yr ysgol a rhieni gyfeirio at y gwasanaeth hwn.
- Gofalwyr Ifanc – nid oes gan yr ysgol bellach gysylltiad â Credu. Cyn COVID, roedd gweithiwr yn mynychu'r ysgol yn wythnosol.  
**Byddai'r ysgol yn falch petai'r cymorth hwn yn ailddechrau.**
- O ran Gwasanaethau Cymdeithasol, dywedwyd bod gweithwyr cymdeithasol yn newid yn barhaus. Mae hyn yn golygu bod diffyg cysondeb ac mae'n arwain at ddiffyg ymddiriedaeth gan bobl ifanc a'u rhieni/gwarcheidwaid sydd, yn ei dro, yn arwain at ymddieithrio o wasanaethau.
- Tîm o Amgylch y Teulu – Mae gweithiwr Cymorth Cynnar yn rhoi cymorth i deuluoedd. Mae hwn yn wasanaeth atal da. Fodd bynnag, oherwydd materion staffio, mae amser cyfyngedig i gwrdd â theuluoedd.
- Mae CRUSE yn darparu cymorth cwnsela profedigaeth trwy Zoom a gall yr ysgol gefnogi hyn trwy ddarparu'r offer angenrheidiol a lle


tawel.

- Byddai'r ysgol yn croesawu ffordd i CAMHS allu adrodd yn ôl i'r ysgol pa strategaethau sy'n cael eu hawgrymu i bobl ifanc fel bod staff yr ysgol yn gallu rhoi cymorth priodol ac addas iddyn nhw. Unwaith y bydd CAMHS yn cymryd rhan, yn aml bydd pobl ifanc yn rhoi'r gorau i fynychu'r ysgol, weithiau am gyfnod estynedig o amser.
- Bu cynnydd mewn addysg yn y cartref oherwydd materion iechyd meddwl.
- Mae niferoedd cynyddol o fyfyrwyr ar amserlenni llai oherwydd problemau iechyd meddwl – mae hyn yn effeithio ar Flwyddyn 8 yn bennaf.

### Sylwadau eraill:

- Cawsom stori profiad y claf sydd wedi'i gwneud yn ddiennw ac wedi'i rhannu â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.  
*Bydd y stori'n llywio'r cyfarfodydd adolygu comisiynu a gynhelir gyda Byrddau Iechyd eraill.*

- Cawsom sylwadau am yr amser aros am ofal wedi'i gynllunio, gydag un person yn egluro eu bod wedi bod yn aros am 12 mis am lawdriniaeth a'u bod mewn poen cyson. Dim ond yn ddiweddar y cawsant wybod y gallen nhw hunan-atgyfeirio ar gyfer ffisiotherapi.



“Dw i mewn poen ac yn teimlo ‘mod i’n aros drwy’r adeg i’r Post Brenhinol ddod ag ychydig o newyddion da”.

Dyweddodd un person eu bod wedi bod yn aros ychydig dros ddwy flynedd am lawdriniaeth ar eu pen-glin yn Ysbyty Bronglais. Roedd eu priod ar y rhestr aros am lawdriniaeth pen-glin yn Ysbyty Robert Jones ac Agnes Hunt (RJAH) a'r disgwyl oedd y byddai'r amser aros yn llawer byrrach yn RJAH.

Siaradodd pobl am y pellter i deithio ar gyfer gofal ysbyty y tu allan i Bowys.

## Dywedon nhw fod angen i staff ysbytai ystyried pellter teithio wrth osod amseroedd apwyntiadau.

Un enghraifft a roddwyd oedd apwyntiad yn Ysbyty Robert Jones ac Agnes Hunt yng Ngobowen am 8am ond roedd yn amhosibl cael trafndiaeth gyhoeddus i Groesoswallt yr adeg honno o'r dydd.

Enghraifft arall oedd rhywun oedd ag apwyntiad am 1pm yn Ysbyty Treforys yn Abertawe. Ni chafodd y claf ei ryddhau tan 5pm ac erbyn hynny nid oedd yn bosibl cael trafndiaeth gyhoeddus yn ôl i Lanidloes a bu'n rhaid i'r claf chwilio am lety am y noson. Dywedon nhw:



“Roedd yn hunllef”.

- Siaradodd person arall am dderbyn triniaeth yn Lerpwl. Rai misoedd yn ddiweddarach, gofynnwyd iddyn nhw fynd i Lerpwl i gael sgan MRI dilynol a chawsant apwyntiad 9am. Holodd y claf pam na allen nhw gael sgan mewn ysbyty yn nes gartref. Eglurodd staff Lerpwl nad oedden nhw wedi sylweddoli'r ddaearyddiaeth a chyfeiriwyd y claf i'r Amwythig yn lle hynny. **Teimlai'r claf hwn y dylid cael gwell cyfathrebu rhwng Byrddau Iechyd Cymru ac Ymddiriedolaethau Lloegr er mwyn osgoi anghyfleustra diangen i gleifion.**
- Dywedwyd wrthym nad oes Nyrs Stoma ym Mhowys a bod yn rhaid i bobl deithio i'r Amwythig i gael y gofal hwnnw. Roedd hyn yn achosi pryder i bobl os oedd unrhyw broblemau gyda'r Stoma oherwydd y risg o haint a'r angen am driniaeth frys.
- Dywedodd rhai pobl fod angen mwy o gymorth i bobl sydd wedi cael strôc. Eglurodd un person nad oedd wedi derbyn unrhyw gyngor na chefnogaeth ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn dilyn strôc ysgafn.
- Dywedodd pobl fod Nyrs Parkinsons wedi dechrau gweithio yng Ngogledd Powys eto ond bod ganddyn nhw restr aros hir i weithio drwyddi felly roedd pobl yn dal i gael trafferth i gael y cymorth yr oedd ei angen arnyn nhw.
- Mae angen mwy o gymorth i bobl â phroblemau iechyd meddwl - mae hyn yn bwysig iawn mewn cymuned wledig lle gall pobl deimlo'n


ynysig ond mae'n ymddangos ei fod yn cael ei anwybyddu.

Clywsom enghreifftiau o wasanaethau'n gweithio mewn ffordd ddi-dor a chydgysylltiedig.

Roedd un am rywun oedd wedi syrthio i lawr y grisiau yn eu gardd – nododd y staff ambiwlans nad oedd canllaw wrth ochr y grisiau a chyfeiriwyd at Gofal a Thrwsio. Gosodwyd canllaw o fewn amser byr.

Eglurodd person arall eu bod wedi bod yn yr ysbyty ar ôl syrthio, ar ôl cael eu rhyddhau, roedd y therapydd galwedigaethol wedi ymweld â nhw a cawsant offer i'w helpu gyda'u gweithgareddau o ddydd i ddydd. Roedden nhw'n meddwl bod y gwasanaeth yn wych.

Cafodd person arall lawdriniaeth frys yn Ysbyty Brenhinol Amwythig ar ôl syrthio. Roedden nhw'n cael ffisiotherapi rheolaidd cyn gadael yr ysbyty ac, ers dychwelyd adref, roedd y therapydd galwedigaethol a meddygon teulu lleol wedi gwneud popeth posibl i'w helpu.



“Mae ffisiotherapi yn y Drenewydd yn rhagorol ac yn fendith, gallaf eu galw unrhyw bryd. Helpon nhw i drefnu cwrs o ymarfer corff ac offer addas yn y cartref; stôl ar gyfer y gawod, stôl ar gyfer y basn dwylo, comôd a rheiliau. Gwych!”



- Roedd gŵr bonheddig yn meddwl y dylai sgrinio'r brostad fod ar gael – dywedodd ei fod “wedi gorfod rhoi pwysau mawr arnyn nhw” pan oedd ganddo bryder am ei iechyd.  
*Nodir nad oes rhaglen sgrinio ar gyfer canser y brostad yn y DU ar hyn o bryd a dylai unrhyw un sy'n poeni am ganser y brostad gysylltu â'u Meddyg Teulu.*
- Canmolwyd y gwasanaeth Deial i Deithio yn Llanidloes, gyda phobl yn dweud bod mawr ei angen yn y gymuned. Dywedodd pobl ei bod yn bosibl ffonio'r diwrnod cynt i archebu'r gwasanaeth.

Mewn nifer o'r sesiynau ymgysylltu, mynegodd pobl eu pryderon am yr adolygiad o'r Gwasanaeth Adalw a Throsoglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) a'r cynnig i gau canolfannau'r Ambiwylans Awyr yn y Trallwng a Chaernarfon. Cawsom sylwadau hefyd gan pobl a oedd wedi penderfynu rhoi'r gorau i roi i Elusen Ambiwylans Awyr Cymru o ganlyniad.

## YR HYN A GLYWSOM O'R AROLYGON

Roedd gennym ddau arolwg ar gael i bobl eu cwblhau, naill ai ar-lein neu ar bapur. Roedd gennym arolwg cyffredinol lle gallai pobl ddweud wrthym am unrhyw wasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol a gawsant, ac arolwg am wasanaethau Meddygon Teulu.

Roedd y dolenni ar-lein i'r arolygon ar daflenni a ddosbarthwyd ym mhob sesiwn ymgysylltu ac anfonwyd copïau at sefydliadau i'w rhannu'n gyhoeddus. Roedden nhw hefyd yn cael eu rhannu ar ein tudalen Facebook.

### Arolwg Cyffredinol – Dywedwch wrthym am y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gawsoch

Cawsom **42** o ymatebion i'r arolwg hwn.

Y gwasanaethau y gwnaeth pobl sylwadau arnyn nhw oedd:

Gwasanaeth	Nifer y Sylwadau
Gofal wedi'i Gynllunio	11
Gofal Cymdeithasol	11
Gwasanaethau Meddygon Teulu	8
Gwasanaethau Deintyddol	6
Gofal Brys	4
Arall	2

Mae crynodeb o'r hyn a glywsom yn yr ymatebion i'r arolwg isod:

### Ymatebion i'r Arolwg am Ofal Wedi'i Gynllunio

Yn seiliedig ar yr adborth a ddarparwyd, mae profiadau gyda gofal wedi'i gynllunio (gofal ysbyty) yn amrywio'n sylweddol.

Mewn nifer o adroddiadau, roedd thema a gododd dro ar ôl tro o rwystredigaeth gydag oedi wrth gyfathrebu a diffyg cydgysylltu yn y system gofal iechyd. Mynegodd cleifion deimladau o gael eu gadael mewn limbo, nid yn unig yn ymwneud â gweithdrefnau dilynol fel

sganiau CT ond hefyd mewn agweddau pwysig ar gydgysylltu gofal, fel deall natur eu gweithdrefnau meddygol a derbyn gwybodaeth ôl-driniaethol amserol.

Er bod y gofal clinigol yn aml yn cael ei ganmol am ei ansawdd - gan amlygu nyrsys arbennig o sylwgar ac ymatebol a staff ysbyty cymwys - mae'r llwybr mynediad at ofal o'r fath yn llawn rhwystrau. Mae unigolion yn sôn am ddiffyg cymorth digalon gan wasanaethau cymorth penodedig i gleifion, fel cyfaill cancer Macmillan, gan eu harwain i chwilio am wybodaeth yn annibynnol.

Yn ogystal, mae'r prosesau gweinyddol yn ymddangos yn broblematic, gan arwain nid yn unig at oedi ond hefyd at sefyllfaoedd a allai beri trallod, fel yr achos o beidio ag ymgynghori â chyfarwyddeb ymlaen llaw claf mewn argyfwng. Mae'r tystebau'n rhoi darlun o system sy'n gallu, ac a ddylai, gynnig rheolaeth fwy personol ac amserol ar ofal cleifion.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae yna hefyd enghreifftiau o wasanaeth da iawn. Cawsom adroddiadau am staff ysbytai'n darparu gofal rhagorol a soniwyd am grwpiau cymorth sy'n cynnig gofal meddygol a chyfleoedd cymdeithasu, gan danlinellu pwysigrwydd ymagweddau cyfannol at iechyd a lles.

## **Ymatebion i'r Arolwg am Ofal Cymdeithasol**

Mae'r adborth ar wasanaethau gofal cymdeithasol gan y gymuned yn amlygu ymdrechion clodwiw a meysydd pryder sylweddol. O'r clod i ganolfannau lleol sy'n cefnogi oedolion ag anghenion cymhleth i straeon trallodus ynglŷn ag unigolion yn cael eu gadael heb gymorth, mae'r profiadau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd system gofal cymdeithasol ymatebol gadarn sy'n deall anghenion amrywiol ac esblygol y gymuned.

Mae'r ganmoliaeth i ganolfannau dydd lleol yn tynnu sylw at rôl hanfodol y gwasanaethau hyn, nid yn unig wrth ddarparu gofal ond hefyd wrth hwyluso integreiddio cymunedol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r adborth cadarnhaol hwn yn dangos, pan fo gwasanaethau gofal cymdeithasol yn hygyrch ac yn cael eu gweithredu'n dda, eu bod yn gwella ansawdd bywyd unigolion ag anghenion cymhleth yn sylweddol.

Ar y llaw arall, llinyn cyffredin yn yr ymatebion yw'r frwydr i lywio'r system gofal cymdeithasol, yn enwedig ar ôl rhyddhau o'r ysbyty. Mae'r diffyg parhad mewn cymorth gwaith cymdeithasol, absenoldeb darpariaethau gofal cymdeithasol oedolion y tu hwnt i oriau arhosiad byr, a'r heriau o

ran trefnu sefyllfaoedd byw cynaliadwy i oedolion ag anawsterau dysgu yn dangos bylchau systemig. Mae rhieni a gofalwyr, sef yn aml asgwrn cefn yn cymorth i oedolion ag anableddau, yn aml wedi blino'n lân, yn chwilio am well datrysiadau byw ac yn eiriol dros gymorth mwy sylweddol.

Mae'r naratifau hefyd yn datgelu senario gofidus lle mae rhoi'r gorau i ofal a chymorth oherwydd penderfyniadau gweinyddol neu gyfyngiadau'r system wedi arwain at argyfyngau personol difrifol, gan gynnwys digartrefedd. Mae'r straeon hyn yn pwysleisio'r angen am ddull mwy empathetig sy'n gwrando go iawn ar anghenion unigolion ac yn eu hasesu cyn gwneud penderfyniadau hollbwysig sy'n effeithio ar eu gofal.

Mae'r adborth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol y rheng flaen, fel y nyrs ardal sydd ag ugain mlynedd o brofiad, yn dangos datgysylltiad rhwng iechyd a gofal cymdeithasol a all arwain at sefyllfaoedd cynhennus a chydgysylltu aneffeithlon o ran gofal. Mae hyn yn cyfleu mater ehangach o integreiddio rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, sy'n hanfodol ar gyfer darparu gofal cyfannol, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n derfynol wael sy'n dymuno treulio eu dyddiau olaf yn gyfforddus ac urddasol, nid mewn ysbytai.

I'r rhai sy'n cael gofal cymdeithasol, mae'r ofn o golli gwasanaethau o'r fath yn amlwg iawn, gyda phryderon am ynysu a'r posibilrwydd y gallai eu llesiant ddirywio pe bai'r gwasanaethau hyn yn dod i ben. Yn ogystal, mae colli cysylltiad sydyn â gweithwyr cymdeithasol a'r dasg frawychus o fynd drwy'r system er mwyn dod o hyd i gymorth newydd yn amlygu'r angen am system fwy dibynadwy a hawdd ei defnyddio.

## **Ymatebion i'r Arolwg am Wasanaethau Meddygon Teulu**

Mae'r adborth ynghylch gwasanaethau Meddygon Teulu yn y gymuned yn gyfuniad o brofiadau cadarnhaol ac anawsterau sylweddol y mae cleifion yn eu hwynebu wrth gael mynediad at ofal.

Mae llawer o gleifion wedi mynegi pryder ynghylch yr heriau o ran sicrhau apwyntiadau Meddygon Teulu. Mae yna awydd amlwg am ymgynghoriadau wyneb yn wyneb, nid yn unig ar gyfer y cyffyrddiad personol ond oherwydd bod yn well gan rai cleifion gyfrinachedd o ran eu materion iechyd, yn enwedig mewn cymunedau bach lle mae cysylltiadau personol yn gyffredin.

Mae mater argaeledd presgripsiynau, gan gynnwys achosion o bresgripsiynau amhriodol, yn ychwanegu at rwystredigaethau cleifion.

Mae methiant cyfathrebu rhwng canolfannau iechyd, ysbytai a fferyllfeydd wedi bod yn broblem dro ar ôl tro, gan arwain at fethu profion a damweiniau apwyntiadau. Gall diffyg cyfathrebu o'r fath gael canlyniadau difrifol, yn enwedig i unigolion llai abl sy'n dibynnu ar y system am wasanaethau iechyd hanfodol.

Er bod y pryderon hyn yn bodoli, mae llawer o brofiadau cadarnhaol wedi'u hadrodd hefyd. Mae rhai cleifion yn canmol ansawdd y gofal a dderbyniwyd gan eu meddygfa Meddyg Teulu Lleol a'u fferyllfa, gyda chyfeiriadau nodedig at systemau ffôn effeithlon a gwasanaeth boddhaol.

Fodd bynnag, mae hanesion i'r gwrthwyneb yn bodoli lle mae cleifion yn teimlo nad yw eu cyflyrau yn cael eu cymryd o ddifrif, gan arwain at deimlad o ddrwgdybio'r system gofal iechyd. Mae achosion o gamddiagnosis canfyddedig neu ddiffyg diagnosis, yn enwedig yn ymwneud â chyflyrau cymhleth, yn dangos bod angen gwell prosesau diagnostig a systemau cymorth i gleifion.

Ynghanol yr adroddiadau hyn, mae tystebau disglair ar gyfer ymarferwyr unigol sy'n rhoi gofal cynhwysfawr, gan gynnwys trefnu profion a sganiau angenrheidiol, sy'n rhoi sicrwydd, a hwyluso ffisiotherapi. Mae mynediad at weithwyr proffesiynol ymroddedig o'r fath a'r gallu i gael apwyntiadau'n gyflym, gan gynnwys ar gyfer ymweliadau cartref, yn adlewyrchu'n gadarnhaol ar y rhannau o'r system iechyd sy'n gweithio'n dda.

## **Ymatebion i'r Arolwg am Wasanaethau Deintyddol**

Mae adborth y gymuned ar wasanaethau deintyddol yn dangos ymdrech sylweddol i gael gofal deintyddol y GIG. Mae'r anallu i gofrestru gyda deintydd GIG yn llinyn cyffredin, gan adael llawer i ddibynnu ar ddeintyddiaeth breifat, sydd, er gwaethaf ansawdd y gofal, yn codi pryderon ynghylch tegwch a mynediad.

Mae profiadau teuluoedd gyda'r deintydd wedi bod yn gymysg, gyda phryder arbennig am ofal cleifion hŷn a phlant. Mae achosion o driniaeth wael, anystyriol, a chanslo apwyntiadau'n cyfrannu at ymdeimlad o esgeulustod a difaterwch ynglŷn â lles cleifion. Mae stori gwraig

oedrannus yn cael ei gwrthod am wasanaeth pellach heb unrhyw esboniad, ynghyd â'r gofid ynglŷn â'i dannedd gosod nad oedd yn ffitio'n iawn, yn tanlinellu diffyg tosturi a pharch at gleifion.

Mae'r anhawster i sicrhau triniaethau deintyddol angenrheidiol, fel bresys i blant, ynghyd â'r arfer o ganslo apwyntiadau, yn ychwanegu at y straen systemig a'r gofid personol. Nid yw'r awgrym i geisio gofal preifat yn cael ei ystyried yn ateb ymarferol oherwydd y gost, sy'n gadael cleifion yn teimlo'n ddiwerth ac fel petaent yn cael eu hanwybyddu.

Mae'r straeon hyn yn dangos galw glir am wasanaeth deintyddol mwy hygyrch, dibynadwy ac empathetig o fewn y GIG. Ceir islif o siom a dadrithiad gyda system sy'n methu â diwallu anghenion hanfodol cleifion, yn enwedig y rhai na allan nhw fforddio gofal preifat. Mae'r adborth yn tynnu sylw at yr angen i ailwampio gwasanaethau deintyddol y GIG er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn sensitif i anghenion pob claf, gan barchu eu hurddas a'u hawliau i gael gofal deintyddol priodol.

## **Ymatebion i'r Arolwg am Ofal Brys**

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i brofiad y gymuned gyda gwasanaethau gofal brys. Mae pryder amlwg am yr amseroedd aros hir ac ansawdd y gofal a dderbynnir yn ystod argyfyngau. Er enghraifft, mae arhosiad hir mewn adran ddamweiniau ac achosion brys, dros nos, yn dangos y straen sydd ar adnoddau a'r anesmwythder y gall hyn ei achosi i gleifion. Gall profiadau o'r fath leihau hyder yng ngallu'r system i ddarparu gofal amserol a chyfforddus ar adegau o angen aciwt.

Mae adroddiad am atgyfeiriad Meddyg Teulu i'r adran ddamweiniau ac achosion brys, a arweiniodd at brofiad anfoddfaol ac anghyfforddus, yn amlygu'r angen hollbwysig am empathi a phroffesiynoldeb o fewn y gwasanaethau brys. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd nid yn unig arbenigedd clinigol ond hefyd ansawdd y rhyngweithio â chleifion a'r angen am well cyfathrebu a gwybodaeth am alluoedd atgyfeirio ar draws y ffin.

Mae'r pryderon ynghylch amseroedd ymateb ambiwlansys a'r posibilrwydd o gael gwared ar y Gwasanaeth Ambiwllans Awyr o'r Trallwng yn dangos y pryder sy'n codi mewn cymunedau gwledig pan fo gwasanaethau brys yn bell neu dan fygythiad. Mae'r ddibyniaeth ar y gwasanaethau hyn yn cael ei ehangu gan heriau daearyddol byw mewn

ardaloedd gwledig, lle nad yw mynediad prydlon i ysbytai cyffredinol wedi'i warantu.

Mae adborth y gymuned yn dadlau'n gryf dros gadw gwasanaethau brys lleol fel yr Ambiwylans Awyr, sy'n cael ei ystyried yn hanfodol ar gyfer sicrhau ymateb cyflym a chefnogaeth i drigolion. Mae'r alwad i Llais gefnogi parhad gwasanaethau o'r fath yn dangos y gwerth a roddir ar gael systemau gofal brys dibynadwy ac effeithlon, yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell.

## Arolwg Cleifion am Wasanaethau Meddyg Teulu

Daeth **48** o arolygon wedi'u cwblhau i law.

Enw'r Practis Meddyg Teulu

Arwystli	34
Iechyd Bro Ddyfi	4
Rhaeadr	4
Aberhonddu	1
Caereinion	1
Glandwr Park	1
Haygarth	1
Machynlleth	1
Montgomery	1

Ceir crynodeb isod o ganlyniadau'r arolwg.

### Rhwyddineb Gwneud Apwyntiadau Arferol

Mae gan gleifion deimladau cymysg ynghylch trefnu apwyntiadau arferol. Er bod rhai yn ei gael yn hylaw, mynegodd nifer sylweddol anhawster.

### Dulliau o Wneud Apwyntiadau Arferol

Mae mwyafrif y cleifion yn defnyddio'r ffôn i wneud apwyntiadau, gydag ychydig iawn yn defnyddio ymweliadau personol neu wasanaethau ar-lein.

### **Cyfyngiad ar Drafod Materion**

Nid yw'r arolwg yn darparu data penodol ynghylch a yw meddygon yn cyfyngu trafodaethau i un mater fesul apwyntiad, ond mae'r sylwadau ychwanegol yn awgrymu awydd am ryngweithio mwy trylwyr, sy'n nodi y gallai cleifion deimlo'u bod yn cael eu cyfyngu yn ystod ymgynghoriadau.

### **Amseroedd Aros ar gyfer Apwyntiadau Arferol**

Mae cleifion yn adrodd am amseroedd aros amrywiol, o lai na 48 awr i fwy na thair wythnos. Mae'r amrywiad hwn yn awgrymu anghysondebau o ran argaeledd apwyntiadau, gan amlygu maes posibl i'w wella o ran rheoli disgwyliadau cleifion ac effeithlonrwydd amserlennu apwyntiadau.

### **Mynediad i Apwyntiadau Brys**

Mae'n ymddangos bod cael mynediad at apwyntiadau brys yn heriol, gyda nifer sylweddol o gleifion yn ei chael hi'n anodd neu'n anodd iawn. Mae hwn yn faes hollbwysig i bractisiau Meddygon Teulu fynd i'r afael ag ef, gan sicrhau y gall cleifion dderbyn gofal amserol pan fo angen ar frys.

### **Rhwyddineb Gofyn am Bresgripsiynau Rheolaidd**

Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn ei chael hi'n hawdd gwneud cais am bresgripsiynau rheolaidd, ond mae lle i wella. Gallai gwella'r broses o wneud cais am bresgripsiwn arwain at well boddhad cleifion a chadw at amserlenni meddyginiaeth.

### **Preifatrwydd wrth y Dderbynfa**

Credai cyfran sylweddol o'r ymatebwyr y gellid gwella preifatrwydd yn y dderbynfa. Mae'r adborth hwn yn tynnu sylw at yr angen am fesurau cyfrinachedd gwell yn ardal desg flaen y practis.

### **Teithio i'r Feddygfa Meddyg Teulu**

Y prif ddull o deithio i'r feddygfa Meddyg Teulu yw mewn car, ac yna cerdded. Gallai'r wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol wrth ystyried



cyfleusterau parcio a hygyrchedd i'r rhai sy'n cerdded neu'n defnyddio cadeiriau olwyn.

### **Bodddhad gydag Amseroedd Agor y Feddygfa**

Mae barn ar amseroedd agor meddygfeydd yn amrywio, gyda nifer sylweddol yn mynegi anhapusrwydd. Gallai adolygu oriau agor i gyd-fynd yn agosach ag anghenion cleifion wella bodddhad cyffredinol.

### **Bodddhad gyda'r Man Aros**

Er bod llawer yn hapus gyda'r man aros, mae yna garfan o gleifion nad ydyn nhw'n hapus, sy'n awgrymu y gallai'r amgylchedd fod yn fwy cyfforddus neu groesawus.

### **Pa mor Gymwynasgar yw'r Staff**

Mae'r ymatebion yn dangos bodddhad cyffredinol gyda chymwynasgarwch y staff, ond mae cwynion sylweddol y gellid mynd i'r afael â nhw er mwyn gwella rhyngweithio a bodddhad cleifion.

### **Cyfathrebu yn eu Dewis Iaith**

Dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith, sy'n ddangosydd cadarnhaol o gynwysoldeb y practis.

### **Cyfathrebu**

Dywedodd 5 o bobl nad oedden nhw'n teimlo bod y cyfathrebu gan y feddygfa Meddyg Teulu yn ddigonol -

Roedd y sylwadau am gyfathrebu fel a ganlyn:

Dw i ddim yn meddwl fy mod i erioed wedi derbyn unrhyw beth
Does dim sicrwydd y bydd rhywun yn derbyn galwad ffôn ddilynol
Dydy sgyrsiau ffôn ddim bob amser yn foddhaol ar gyfer y sawl sy'n drwm eu clyw. Mae hefyd yn golygu gwranddo ar gyfarwyddiadau hirfaith cyn siarad â derbynnydd.
Cael gwybod am ganlyniadau profion (profion gwaed er enghraifft) a pheidio â gorfod cymryd yn ganiataol bod dim cyfathrebu yn golygu

nad oes unrhyw broblemau. Dydy hi ddim yn anarferol i ganlyniadau fynd ar goll.

Nid yw aros am alwad ffôn yn addas i mi gan nad oes gen i ffôn gyda mi yn y gwaith felly byddai angen i mi gymryd y bore cyfan i ffwrdd o'r gwaith dim ond i siarad â meddyg ... ac yna cael apwyntiad beth bynnag.

## Sylwadau Cyffredinol

Rhoesom gyfle i bobl wneud unrhyw sylwadau pellach am y gwasanaeth a dangosir y wybodaeth a gawsom isod.

Mae cleifion yn cael profiadau amrywiol, gyda rhai yn canmol ymdrech y staff ac eraill yn amlygu heriau sylweddol wrth geisio cael gofal, yn enwedig apwyntiadau wyneb yn wyneb. Mae pryderon am barhad gofal, effeithlonrwydd ymgynghoriadau dros y ffôn, ac effaith argaeledd gwasanaethau ar iechyd y gymuned yn nodi meysydd y gellid eu gwella.

Mae'n anodd gweld Meddyg Teulu go iawn Yn aml mae'n ymarferydd cyswllt.

Mae mynd i weld meddyg fel arfer yn eithaf anodd, yn enwedig y meddyg rydych chi am ei weld. Cynigir ymgynghoriadau ffôn, ond ar adegau cyfyngedig, nad ydyn nhw bob amser yn gyfleus i'r claf. Fel arfer gwneir y galwadau ar frys. Gall staff y dderbynfa fod yn ddi-gymorth, ac rydych chi'n cael eich gwneud i deimlo'n niwsans.

Mae ein meddygfa (*Rhayader*) yn rhedeg ar ddau Feddyg Teulu gyda phoblogaeth gynyddol (yn wreiddiol roedd yn dri meddyg gyda llai o gleifion). Mae mwy yn cael ei wneud gan y Nyrsys, sy'n dda. Mae neges y llinell ffôn yn boen. Mae'r derbynyddion yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar.

Rhaid aros mwy na 30 munud yn yr ystafell aros bob amser.

Dw i'n teimlo ei bod yn bwysig cael un Meddyg Teulu (o ddewis) wedi'i neilltuo i glaf ar gyfer parhad gofal. Gwelais locwm benywaidd yn ddiweddar (ar ôl aros 5 wythnos am apwyntiad gyda fy Meddyg Teulu benywaidd, a oedd i ffwrdd ar ddiwrnod fy apwyntiad) ac mae'n amlwg nad oedd hi wedi darllen fy nodiadau, ac ni ddarllenodd y nodiadau yr oeddwn wedi dod gyda fi fel cymhorthion cof. Roeddwn i'n teimlo'n

ddibwys, o ystyried mai'r cyngor yw y dylech wneud nodiadau os ydych yn cael trafferth cofio symptomau problem.

Mae'n eithaf brawychus cael diffyg cyfleusterau meddygol ym Mhowys, e.e. dim Adran Damweiniau ac Achosion Brys - mae'r agosaf 30 milltir i ffwrdd yn Aberystwyth, ac mae cleifion canser yn cael eu hanfon i Ysbytai Henffordd neu Cheltenham! Mae ein ambiwlans awyr yn cael ei symud o'r Trallwng i le yn y gogledd. Mae'n ymddangos ein bod yn cael ein gadael i ofalu am ein hunain ym Mhowys.

Mae'r staff yn mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau i ddarparu gwasanaeth rhagorol. Yn anffodus, dydy'r cyllid ddim yn ddigonol i gynnal y lefel o wasanaeth y mae pobl yn ei ddymuno.

Methu canmol staff ddigon, mae'n dda iawn. Mwy na hapus gyda'r gwasanaeth. Awyrgylch hyfryd, pawb yn gymwynasgar iawn.

Ers y pandemig, rwy'n gwerthfawrogi gallu trefnu ymgynghoriad ffôn gyda meddyg pan nad oes angen cael fy ngweld yn bersonol e.e. i drafod ymholiadau am driniaeth neu feddyginiaeth neu am gyngor. Mae hyn yn fwy cyfleus i mi gan fy mod yn byw y tu allan i'r dref mewn ardal wledig. Fodd bynnag, byddai'n dda cael slot amser ar gyfer pryd y gallwn ddisgwyl yr alwad e.e. rhwng 2-3pm / prynhawn ar ôl 4pm.

Mae wedi dod yn gyffredin ei bod yn debygol iawn y bydd apwyntiad arferol yn cael ei roi dros y ffôn, sy'n anfoddhaol yn fy marn i gan y gellir methu pethau'n aml os nad ydych yn gweld rhywun yn bersonol.

Gan fy mod yn dioddef o or-bryder dwi'n ei chael hi'n anodd iawn trafod unrhyw beth dros y ffôn felly mae gen i gytundeb y gallaf eu e-bostio nhw. Gall gymryd 24 awr neu fwy i gael ateb ond yn dda iawn ar y cyfan.

Stopiwch yr ymgynghoriadau ffôn, mae angen i ddiagnosis diogel fod wyneb yn wyneb.

Mae meddygon dan ormod o bwysau.

Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar. Fy unig feirniadaeth yw nad oes meddygon benywaidd oni bai fy mod yn mynd i Lanidloes. Mae yna un neu ddau o'r meddygon gwrywaidd sy'n gwybod dim am y menopos a does ganddyn nhw ddim ffordd weddus wrth drafod y pwnc hwn. Ar gau hefyd ar ddydd lau ac amser cinio (sef yr adeg y mae gen i amser i ddod lawr).

Mae fy meddygfa yn help mawr a dw i'n falch o'i chael yn ein tref yn enwedig gan fod gwasanaethau cymunedol eraill fel bancio yn diflannu.

Mae'r gwasanaeth presgripsiwn rheolaidd ym Mhractis Caersws yn gofyn am lawer o wybodaeth bersonol i'w chyflwyno dros e-bost. Gan nad yw e-byst yn ddiogel does bosib fod hyn yn cyd-fynd â'r GDPR cyfredol? A all y practis geisio cyflymu'r broses o gyflwyno'r Ap Meddygfa i gleifion Caersws neu o leiaf edrych ar ba wybodaeth sydd ei hangen mewn gwirionedd er mwyn gwneud cais am bresgripsiwn rheolaidd drwy e-bost?

Nid yw'r ffurflen arolwg hon yn adlewyrchu'n ddigonol y cymhlethdod o gael mynediad at ofal Meddyg Teulu. Ar gyfer unrhyw beth newydd neu frys, fel arfer mae'n amhosibl cael apwyntiad wyneb yn wyneb ar fyr rybudd. Yn lle hynny mae'n rhaid i ni fynd i weld y fferylllydd yn y fferyllfa yn y dref sy'n brysbennu ac yn ein cyfeirio at y Meddyg Teulu os oes angen. Neu bydd y Meddyg Teulu yn cynnig galwad ffôn o fewn tua 48 awr, eto'n brysbennu ac yn trefnu apwyntiad wyneb yn wyneb yn ddiweddarach os bydd angen.

Ers COVID mae'n anodd iawn cael gweld meddyg yn uniongyrchol. Mae bob amser yn ymddangos bod yn rhaid i chi aros am sgwrs ffôn yn gyntaf, a all olygu aros am sawl diwrnod. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, e.e. nyrsys yn llawer gwell. Hefyd dim ond pedwar diwrnod yr wythnos y mae ein practis lleol ar agor ac mae ar gau yn eithaf rheolaidd hefyd at ddibenion 'hyfforddiant staff' yn y prynhawniau. Felly mae'n teimlo fel gwasanaeth wedi'i sefydlu ar gyfer y staff, nid y claf.

Gallai'r man aros fod yn fwy croesawgar. Y dderbynfa yw'r prif fan aros felly dim ond yn breifat pan nad oes neb yn bresennol.

Mae presgripsiynau rheolaidd trwy e-bost neu lythyr. Ar gyfer apwyntiad gofal brys - rydych chi'n ffonio ac yn rhoi manylion i'r derbynnydd. Trosglwyddir hwn i'r Meddyg ar Ddyletswydd. Rydych chi'n derbyn galwad ffôn ac yna rydych chi naill ai'n cael apwyntiad yr un diwrnod neu'n casglu presgripsiwn o'r practis.

Mae fy Meddyg Teulu yn fendigedig, yn wirioneddol ragorol, ond gan ei fod erbyn hyn yn Feddyg Teulu i ddwy ganolfan iechyd sydd bellach

wedi uno, mae cael eu gweld, sy'n wirioneddol bwysig ar gyfer parhad, yn llawer anoddach.

Hefyd, rydyn ni i fod i fod yn sâl rhwng oriau swyddfa dydd Llun i ddydd Gwener. Dydy'r corff ddim yn gweithio felly. I gael triniaeth y tu allan i oriau neu i gael triniaeth ar y penwythnos mae'n rhaid i chi fynd i Damweiniau ac Achosion Brys sydd, oherwydd bod popeth wedi'i ganoli, yn daith gron o 50 milltir yn hawdd, ac a dweud y gwir does neb eisiau mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys byth.

Mae'r practis 17 milltir o fy nghyfeiriad a does dim trafndiaeth gyhoeddus ar gael os na fyddwn yn gallu gyrru gan fy mod i dros 70 oed ac mae'n siŵr y bydd hyn yn digwydd, ni fyddwn yn gallu dal i fyw yn fy nghartref. Gan y byddai codi presgripsiynau neu fynychu apwyntiadau yn anodd iawn. Pan symudais i yma roedd y feddygfa yn llawer agosach.

Yn gyffredinol mae'n rhaid i ni ddibynnu ar feddygon locwm sydd, yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, wedi bod yn dda iawn ac wedi darparu lefel o hyder nad yw fel arfer yn gysylltiedig â'r meddyg parhaol.

Mae'n deg dweud bod y staff nyrsio a chymorth y feddygfa yn gyfeillgar a chefnogol er yn gyfyngedig iawn o ran niferoedd.

O ran cymorth staff .. mae rhai yn hyfryd ond roedd ganddyn nhw dderbynnnydd anghwrtais iawn yn y gorffennol!

Staff gofalgwr cyfeillgar sy'n gefnogol ac yn barod i helpu hyd yn oed pan fyddan nhw ar frys.

Mae'n ymddangos bod y sefydliad yn cau i weddu i'w staff yn hytrach nag anghenion y gymuned e.e. cau ar gyfer hyfforddiant staff.

Mae bron yn amhosib cael gweld Meddyg Teulu, mae staff yn swta ar y gorau ac rydych chi'n teimlo nad oes croeso i chi. Mae'r system ffôn yn wael ac yn rhwystredig, ar bob cyfle rydych yn cael eich cyfeirio at y Fferyllydd yn y fferyllfa leol lle cewch eich gweld ar sail y cyntaf i'r felin (digon teg) ond rydych yn eistedd yn y fferyllfa i bawb eich gweld ac i bob germ ledaenu, tra bod ystafell aros y feddygfa yn wag.

Mae'n hurt bod y fferyllydd yn gweld mwy o gleifion na grŵp o feddygon.

Mae galwadau ffôn gyda meddygon, yn enwedig os nad oes gennych chi unrhyw syniad pryd y byddan nhw'n digwydd, yn annigonol. Dw i byth yn cofio popeth roeddwn i eisiau ei drafod a bob amser yn teimlo'r angen i ruthro drwy'r alwad ffôn.

I mi, dw i'n meddwl bod yr amser y mae'n ei gymryd i gael apwyntiad gyda'ch meddyg dewisol yn ofnadwy

Yn ail, y cyswllt cychwynnol hwn dros y ffôn, dydw i ddim eisiau hynny, mae'n wastraff amser i mi, gellid defnyddio amser y meddygon yn well, ac wedyn gwneud apwyntiad arall i weld y meddyg yn bersonol. Mae'n wastraff amser llwyr y gellid ei ddefnyddio'n well, yn enwedig i feddygon weld mwy o gleifion yn lle treulio amser ar y ffôn.

Staff cyfeillgar, cymwynasgar.

Wedi byw wyth milltir i ffwrdd yn Saint Harmon ers 2002. Byth ers i ni ddefnyddio'r feddygfa ac mae wedi bod o fudd mawr i'n lles. Wedi gorfod cwyno i Gyngor Sir Powys yn y gorffennol oherwydd y ffordd yr oedd gweithwyr cymdeithasol yn trin fy meibion sydd ag anabledd, gan arwain at o leiaf wyth digwyddiad difrifol yn peryglu bywyd ers 2003.

Practis Meddyg Teulu gwych. Y gorau rydyn ni erioed wedi'i ddefnyddio.

Mae'r naratif hwn yn cyfuno data'r arolwg, gan adlewyrchu profiadau a chanfyddiadau amrywiol y gymuned o'u gwasanaethau Meddyg Teulu, ac yn awgrymu meysydd lle gallai practisiau ganolbwyntio gwelliannau i ddiwallu anghenion cleifion yn fwy effeithiol.

## Gan Bwy y Clywsom

Mae ein harolygon yn cynnwys cwestiynau monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth fel y gallwn gael dealltwriaeth o brofiadau a chanfyddiadau grwpiau gwahanol o bobl yn y gymuned.

Mae'r tabl canlynol yn giplun o'r bobl ym Mhowys a rannodd eu barn a'u profiadau. Nid yw pobl bob amser yn dweud popeth wrthym amdanyn nhw eu hunain pan fyddan nhw'n dod i rannu eu profiadau a'u safbwyntiau gyda ni.

## Arolwg Cleifion am Wasanaethau Meddygon Teulu

Cawsom **36** o arolygon wedi'u cwblhau.

Enw'r practis meddyg teulu

Tŷ Henry Vaughan (Aberhonddu)	29
Canolfan Iechyd Pontsenni	4
Canolfan Feddygol Crucywel	1
Canolfan Feddygol Talgarth	1
Stryd Wylcwm, Tref-y-clawdd	1

Mae crynodeb isod o ganlyniadau'r arolwg.

### Mynediad i Apwyntiadau

Mae Practis Aberhonddu yn cael ei feirniadu am ei system brysbennu dros y ffôn gyda chiwiau hir ar y ffôn a'r anallu i wneud apwyntiadau arferol o flaen llaw.

Hoffai cleifion weld Meddygfa Pontsenni'n cael ei hailagor yn llawn.

### Parhad Gofal

Mae cleifion yn ei chael hi'n rhwystredig wrth weld gwahanol feddygon gan eu bod yn teimlo bod hyn yn effeithio ar barhad gofal. Mae awydd cryf i weld yr un meddyg ar gyfer materion parhaus.

Adroddodd pobl bryderon am afreoleidd-dra gwiriadau meddyginiaeth arferol.

## **Cyfathrebu**

Dywedodd cleifion nad oedd cael canlyniadau profion yn foddhaol. Yn aml mae'n rhaid iddynt ysgogi'r feddygfa am wybodaeth yr oeddent yn credu y dylid ei hanfon yn rhagweithiol.

Mynegodd rhai cleifion rwystredigaeth am beidio â derbyn canlyniadau profion oni bai bod problem. Gwnaethant awgrymu y byddai'n fuddiol derbyn pob canlyniad, hyd yn oed os yw'n normal, trwy e-bost neu lythyr.

Dywedodd rhai pobl eu bod yn gorfod llenwi ffurflen ac aros am gyfnod estynedig os oedden nhw am dderbyn eu canlyniadau yn ysgrifenedig yn hytrach na dros y ffôn.

## **Profiad Cleifion**

Mae amgylchedd yr ystafell aros yn cael ei ddisgrifio fel un anghysurus. Mae codi presgripsiynau o ffenestr ochr yn Pontsenni yn cael ei ystyried yn anghyfleus.

Roedd yna alw am welliannau yng ngwasanaeth cwsmeriaid, gyda rhai yn sôn bod rhai staff y dderbynfa yn anghwrtais ac yn ddiystyriol.

Er gwaethaf problemau'r system, mynegodd llawer o gleifion foddhad â'r gofal a ddarperir gan feddygon ac ansawdd cyffredinol gofal sylfaenol unwaith y cânt eu gweld.

## **Gan bwy rydym wedi clywed**

Mae ein harolygon yn cynnwys cwestiynau monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth fel ein bod yn gallu cael dealltwriaeth o brofiadau a chanfyddiadau gwahanol grwpiau o bobl yn y gymuned.

Mae'r tabl canlynol yn gipolwg o'r bobl ym Mhowys a rannodd eu barn a'u profiadau. Nid yw pobl bob amser yn dweud popeth wrthym amdanynt eu hunain pan ddônt i rannu eu profiadau a'u safbwyntiau gyda ni.



Cwblhaodd **90** o bobl ein harolygon

Cawsom **0** ymateb yn Gymraeg

Cwblhaodd **88** o bobl rai neu bob un o'r cwestiynau cydraddoldeb ac amrywiaeth

Roedd **60%** yn fenywod a **36%** yn ddynion, ac roedd yn well gan **4%** beidio â dweud

Nododd **80%** eu bod yn heterorywiol; **7%** arywiol; **1%** deurywiol; **2%** Hoyw; Roedd yn well gan **10%** beidio â dweud

Roedd oedran cyfartalog y bobl a rannodd eu barn â ni yn yr ystod oedran **70-79**

Roedd **92%** yn Wyn (Cymreig, Seisnig, Albanaid, Gogledd Iwerddon, Prydeinig), **5%** Gwyn Arall ac roedd yn well gan **3%** beidio â dweud

Dywedodd **47%** o bobl mai Cristnogaeth oedd eu crefydd; **37%** Dim Crefydd; **6%** Anffyddiaeth; **2%** Crefydd neu gred arall; Roedd yn well gan **8%** beidio â dweud

Dywedodd **28%** o bobl fod ganddyn nhw anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor

Roedd **36%** o bobl yn ofalwyr

Roedd **1%** o bobl yn feichiog

O ran statws ariannol, mae gan **11%** ddigon yn unig ar gyfer angenrheidiau sylfaenol a fawr ddim arall; mae gan **19%** fwy na digon ar gyfer angenrheidiau sylfaenol ac ychydig bach o incwm gwario; nid oes gan **5%** ddigon ar gyfer angenrheidiau sylfaenol ac weithiau maen nhw'n rhedeg allan o arian; mae gan **10%** fwy na digon ar gyfer angenrheidiau, a llawer iawn o incwm gwario; ac ni roddodd **55%** ateb

## Yr Hyn yr Ydym Wedi'i Wneud â'r Hyn a Glywsom

Rydym yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys i sicrhau eu bod yn deall beth mae pobl yn ei feddwl am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn gallu gwneud gwelliannau i wasanaethau lle mae eu hangen.

Cynhaliom weithdy ar y cyd er mwyn i ni allu adrodd ar brif themâu'r hyn a glywsom gan bobl yn ardal Llanidloes. Roedd y sesiwn yn cynnwys staff a gwirfoddolwyr Llais a chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd, y Cyngor Sir a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys. Rhannwyd ein hadroddiad drafft gyda nhw cyn y sesiwn ac, yn ystod y cyfarfod, gallom dynnu sylw at rai o'r prif themâu, trafod meysydd gwaith sydd eisoes ar y gweill, a nodi rhai camau gweithredu i'w cymryd.

Dyma'r prif themâu a ystyriwyd gennym yn y gweithdy:

- Yr adborth cadarnhaol am y gwasanaethau a ddarperir yn lleol, gyda chanmoliaeth i'r staff a'r gofal a ddarperir.
- Yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu pan fydd angen iddyn nhw gael mynediad at wasanaethau y tu allan i Bowys - anawsterau trafndiaeth; diffyg ystyriaeth o bellter i deithio wrth bennu amseroedd apwyntiadau; yr angen am well cyfathrebu rhwng Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau fel y gellir rhoi cyfle i gleifion fynychu profion diagnostig mor agos at eu cartrefi â phosibl.
- Mae'r gymuned yn werthfawrogol iawn o'r gwasanaeth a ddarperir gan y fferyllfa leol.
- O ran gwasanaethau Meddyg Teulu, mae awydd am fwy o apwyntiadau wyneb yn wyneb, gyda phryder am gamddiagnosis drwy apwyntiadau dros y ffôn. Rhaid cydnabod nad yw'r system brysbennu dros y ffôn yn gweithio i bawb a chlywsom ei bod yn atal rhai pobl rhag galw eu Meddyg Teulu.
- Gwasanaethau i bobl ag Anableddau Dysgu, yn enwedig y pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, llety byw â chymorth a chymorth sydd ar gael gan y Nyrs Gyswilt Anabledd Dysgu.
- Anawsterau a brofir gan gleifion a leolir mewn ysbyty cymunedol gryn bellter o'u cartref a hyd arhosiad yn yr ysbyty tra'n aros i becyn gofal

gael ei roi yn ei le.

- Yr heriau a brofir gan unigolion a sefydliadau oherwydd diffyg parhad gyda staff gofal cymdeithasol.

## Arsylwadau ac Ymrwymadau o'r Gweithdy

1. Cytunwyd bod yr adroddiad yn rhoi mewnwelediad, gwybodaeth a dysgu gwerthfawr i'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Sir. Mae'n adlewyrchu ac yn ailadrodd llawer o'r hyn a glywyd yn y gweithdai Powys Gynaliadwy/Gwell Gyda'n Gilydd a gynhaliwyd ledled y sir yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth. Mae llawer o'r data a gasglwyd hefyd yn adlewyrchu gwybodaeth ac adborth a dderbyniwyd gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO).
2. Cytunwyd y byddai'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Sir yn rhannu gwybodaeth a dderbyniwyd o weithdai Powys Gynaliadwy/Gwell Gyda'n Gilydd, fel bod Llais yn ymwybodol o unrhyw faterion penodol wrth gynllunio i wneud gwaith ymgysylltu yn y dyfodol yn y gwahanol ardaloedd.
3. Mae'n bwysig ein bod yn datblygu set o ymrwymadau o bob gweithdy. Bydd Llais wedyn yn trefnu sesiwn ymgysylltu ddilynol ym mhob ardal tua chwe mis ar ôl yr ymgysylltu â ffocws er mwyn clywed gan y gymuned a fu unrhyw newidiadau i bobl.
4. Ymrwymodd Llais i gyhoeddi'r adroddiad drafft bythefnos cyn dyddiad gweithdy er mwyn galluogi'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Sir i adolygu cyn y gweithdai. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y cynrychiolwyr sy'n mynychu'r gweithdy yn gallu darparu camau gweithredu ac atebion mewn ffordd bartneriaeth.
5. Bydd Llais yn ystyried dod â swyddogion o ranbarthau eraill Llais i mewn i glywed beth mae pobl yn ei ddweud am wasanaethau a ddarperir yn eu rhanbarthau, e.e. gallai swyddogion o Orllewin Cymru gael eu gwahodd i glywed beth mae pobl Machynlleth yn ei ddweud am wasanaethau a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda.
6. Llais i wneud cynrychiolaeth i Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd i'w hatgoffa am drefnu amseroedd apwyntiad addas ar gyfer

cleifion sydd â phellter i'w deithio.

7. Tîm Gofal Sylfaenol y Bwrdd Iechyd a'r Tîm Rheoli Meddyginiaethau i roi gwybod i'r Feddygfa a'r Fferyllfa am yr adborth cadarnhaol. Er bod dysgu i'w symud ymlaen, mae'r cadarnhad bod gwasanaethau'n gweithio'n dda yn bwerus i staff.
8. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn 2022<sup>12</sup> am bontio a throsglwyddo o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau oedolion. Mae hwn yn faes rhaglen allweddol o waith i'r Bwrdd Iechyd a bydd yr adborth yn adroddiad Llais yn werthfawr wrth i'r gwaith hwn barhau.
9. Bydd gwybodaeth o'r adroddiad yn cael sylw Ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr a Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru, fel rhan o gyfarfodydd adolygu comisiynu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.
10. Mae gwaith ar y gweill yn y Bwrdd Iechyd ynglŷn ag ehangu gwasanaethau Aros yn Iach. Gallai hyn gynnwys un pwynt cyswllt i wneud pobl yn fwy ymwybodol o'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael; hybu gallu pobl i hunan-atgyfeirio ar gyfer ffisiotherapi; cyngor a chymorth sydd ar gael i helpu rhywun i fod mor ffit ag y gallan nhw fod ar gyfer unrhyw lawdriniaeth sydd ar ddod; cyfeirio at Wasanaethau Cyngor a Chysylltiadau Cleifion mewn Ymddiriedolaethau GIG cyfagos i helpu i drefnu amseroedd apwyntiadau addas; a'r posibilrwydd o drefnu profion diagnostig yn nes at adref.
11. Mae gwasanaethau arbenigol nad yw'n bosibl eu darparu ym Mhowys oherwydd diogelwch cleifion a rheolaeth glinigol – enghraifft o hyn yw'r Nyrs Stoma y cyfeirir ati yn yr adroddiad. Ar gyfer rhai gwasanaethau, mae'r Bwrdd Iechyd yn gallu trefnu clinigau allgymorth ym Mhowys ond mae'n anodd cael lefel o gysondeb. Mae gan y Bwrdd Iechyd egwyddor sylfaenol wrth galon ei strategaeth i ddarparu gofal yn nes at y cartref lle mae'n ddarbodus, yn ddiogel ac yn hyfyw i wneud hynny.
12. Derbynnir bod prinder gweithwyr gofal yn ardal Llanidloes, a chydabyddir bod hyn yn arbennig o anodd i bobl y mae angen gwasanaethau a chymorth arbenigol arnyn nhw. Oherwydd

---

<sup>1</sup> Y Canllawiau Pontio a Throsglwyddo

<sup>2</sup> Fersiwn Pobl Ifanc o'r Canllawiau Pontio a Throsglwyddo

adnoddau cyfyngedig, mae angen sicrhau cydbwysedd er mwyn sicrhau bod y gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr amser iawn. Mae hwn yn fater y mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael ag ef a bydd yn sgwrs barhaus am y dyfodol rhagweladwy.

Byddai'r Cyngor yn cynghori pobl i ofyn am asesiad cyn gynted â phosibl a pheidio ag aros i sefyllfa o argyfwng ddatblygu - byddai hyn yn golygu y gellid rhoi mwy o gyngor a chymorth ymyrraeth yn ei le mewn modd amserol, i gadw pobl gartref neu'n annibynnol cyhyd â phosibl. Mae rhywfaint o waith i'r Cyngor Sir hysbysu'r cyhoedd am hyn.

13. Mae angen dull aml-asiantaeth i helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd. Mae cynyddu cyfleoedd cymorth cynnar, cymorth a chynhwysiant i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd wedi'i nodi fel blaenoriaeth allweddol yng Nghynllun Ardal Powys i'w weithredu a'i gyflawni drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys.
14. Mae'r sefyllfa gyda Gwasanaethau Plant yn gwella. Bellach mae yna weithlu mwy sefydlog gyda mwy o staff parhaol a llai o ddibyniaeth ar staff asiantaeth. Bu gostyngiad yn nifer y cwynion am newidiadau staff gwaith cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.
15. Mae sgysiau parhaus am sut y gall y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio'n well. Y mecanwaith allweddol ar gyfer cyflawni hyn yw trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys, gan gynnwys trwy gyflawni Cynllun Ardal Powys sy'n nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwell gwaith partneriaeth ar draws gwasanaethau iechyd a gofal.
16. Cydnabyddir bod cael mynediad at ofal deintyddol cyffredinol yn broblem ar draws y DU. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio llenwi'r bwloch ar gyfer Anableddau Dysgu gydag arbenigedd arbenigol o fewn y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol.
17. Bydd y Bwrdd Iechyd yn codi ymwybyddiaeth o'r Nyrs Gyswllt Anabledd Dysgu ym Mhowys gydag Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford trwy'r cyfarfodydd contractwyr/comisiynydd.
18. Mae llety byw â chymorth yn wasanaeth pwrpasol. Mae deddfwriaeth y mae'r Cyngor yn rhwym iddi mewn perthynas â gwasanaethau Anabledd Dysgu ac mae prosesau y mae'n rhaid i'r

Cyngor eu dilyn wrth roi trefniadau byw â chymorth yn eu lle. Ymrwymodd y Cyngor i ddarparu gwell gwybodaeth ac esboniad am brosesau i unigolion a'u teuluoedd, ac i geisio bodloni dymuniadau pobl.

19. Cytunwyd i ddefnyddio'r termau canlynol mewn perthynas â gofalwyr – gofalwyr di-dâl wrth gyfeirio at aelodau o'r teulu neu ofalwyr eraill nad ydyn nhw mewn rôl â thâl a gweithwyr gofal wrth gyfeirio at bobl sy'n darparu gwasanaeth gofal ac yn cael eu talu amdano.
20. Ystyriwyd ei bod yn bwysig rhannu canlyniad yr ymgysylltu â'r gymuned yn Llanidloes.



**CAMAU GWEITHREDU O'R GWEITHDY  
YNGHYLCH ADRODDIAD YMGYSYLLTU AG ARDAL LEOL LLANIDLOES  
A GYNHALIWDYD AR 19 EBRILL 2024**

<b>Camau gweithredu y cytunwyd arnynt</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>	<b>Dyddiad Dilynol</b>
Sicrhau bod gwybodaeth o weithdai Powys Gynaliadwy/Gwell Gyda'n Gilydd yn cael ei hystyried wrth gynllunio ymgysylltu ag ardaloedd lleol yn y dyfodol.	Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais) Rheolwyr Ymgysylltu (Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP) a Chyngor Sir Powys (CSP))	Adolygiad mewn 3 mis (31 Gorffennaf 2024)
Adroddiadau yn y dyfodol i'w dosbarthu i'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Sir bythefnos cyn dyddiad y gweithdy.	Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais)	Adolygiad mewn 3 mis (31 Gorffennaf 2024)
Llais i ystyried gwahodd cynrychiolwyr o Ranbarthau Llais eraill i ymuno â digwyddiadau ymgysylltu i glywed am wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau o'u hardal.	Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais)	Adolygiad mewn 6 mis (31 Hydref 2024)

Llais i gyflwyno sylwadau i Ymddiriedolaethau a Byrddau lechyd i'w hatgoffa am drefnu amseroedd apwyntiad addas ar gyfer cleifion sydd â phellter i'w deithio.	Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais)	Cyhoeddi cynrychiolaeth erbyn 15 Mai 2024
Llais i rannu canlyniad yr ymgysylltu â'r gymuned yn Llanidloes.	Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais)	Diwedd Mai 2024
Bod yn glir ynghylch y termau a ddefnyddir mewn perthynas â gofalwyr – gofalwyr di-dâl wrth gyfeirio at deulu neu eraill nad ydyn nhw'n cael eu talu am y gofal y maen nhw'n ei ddarparu a gweithwyr gofal wrth gyfeirio at bobl sy'n darparu gwasanaeth gofal y telir amdany'n nhw.	Pob un	Adolygu mewn 6 mis (31 Hydref 2024)
Bwrdd lechyd Addysgu Powys (BIAP) i roi gwybod i Bractisiau Meddyg Teulu a Fferylliaeth am adborth cadarnhaol.	Tîm Gofal Sylfaenol BIAP a Thîm Rheoli Meddyginiaethau	Yn dilyn hysbysiad gan Llais o gyhoeddiad yr adroddiad terfynol
BIAP i fynd i'r afael â phryderon a godwyd mewn adroddiad gydag Ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr.	Tîm Comisiynu BIAP trwy Gyfarfodydd Comisiynu, Perfformiad Ansawdd ac Adolygu (CQPRMs) rheolaidd	3 mis (31 Gorffennaf 2024)
BIAP i godi ymwybyddiaeth o'r Nyrs Gyswllt Anabledd Dysgu ym Mhowys gydag Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford.	Tîm Comisiynu BIAP trwy Gyfarfodydd Comisiynu,	3 mis (31 Gorffennaf 2024)



	Perfformiad Ansawdd ac Adolygu (CQPRMs) rheolaidd.	
BIAP i ddefnyddio adborth ar apwyntiadau gofal wedi'i gynllunio i lywio eu gwaith i weithredu'r (y 3A) (Annog, Atal ac Amser Paratoi ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd).	Uwch Reolwr Gofal wedi'i Gynllunio BIAP	Adolygu ymhen 12 mis (30 Ebrill 2025)
Cyngor Sir Powys (CSP) i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd ynghylch sut a phryd i geisio cyngor neu wasanaethau cymorth.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol	Adolygu mewn 6 mis (31 Hydref 2024)
CSP i roi gwell gwybodaeth ac esboniad i unigolion a'u teuluoedd am brosesau ar gyfer llety byw â chymorth.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol	Adolygiad mewn 6 mis (31 Hydref 2024)
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys i ddatblygu dull aml-asiantaeth o fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd yn unol â blaenoriaeth Cynllun Ardal Powys i "Cynyddu cyfleoedd cymorth cynnar, cefnogaeth a chynhwysiant er mwyn lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd."	Tîm Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys	Adolygu cynnydd trwy Gynllun Cyflawni BIAP (parhaus)
Llais i rannu mewnwelediadau ymgysylltu â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys i gefnogi'r gwaith parhaus o gynllunio a chyflawni blaenoriaethau ar gyfer cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol trwy Gynllun Ardal Powys.	Llais / Tîm Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys	Adolygu cynnydd trwy Gynllun Cyflawni BIAP (parhaus)

## DIOLCH

Diolchwn i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal ac i rannu eu syniadau.

Gobeithiwn fod yr adborth y mae pobl wedi'i gymryd o'u hamser i'w rannu yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda - a chymryd camau lle mae angen iddynt wneud cyn gynted ag y gallant i wella pethau.

## ADBORTH

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallem fod wedi'i wella, fel y gallwn ei ddefnyddio i wneud ein gwaith yn y dyfodol yn well.

## MANYLION CYSWLLT

RHANBARTH LLAIS POWYS,  
LLAWR GYNTAF, NEUADD BRYCHEINIOG,  
FFORDD CAMBRIAN,  
ABERHONDDU, POWYS,  
LD3 7HR.

FFÔN: 01874 624206  
E-BOST: POWYSENQUIRIES@LLAISCYMRU.ORG  
GWEFAN: WWW.LLAISCYMRU.ORG  
FACEBOOK: @LLAISPOWYS  
TWITTER: LLAIS\_WALES

LLAWR GYNTAF,  
Tŷ LADYWELL,  
Y DRENEWYDD, POWYS,  
SY16 1JB.

FFÔN: 01686 627632